



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Address
1 Heol Penlan (mynedfa oddi ar Heol Y
Bradgy)
Caerfyrddin SA31 1DN

Hywel Dda University Health Board Address
1 Penlan Road (entrance off Brewery Road)
Carmarthen SA31 1DN

Ffrindiau Annwyl

Diolch i'n cymunedau

Mae'r ymateb a gawsom gan ein cymunedau i gefnogi ein rhaglen frechu coronafeirws fel gwirfoddolwyr wedi bod yn wych a hoffem ddweud diolch am eich holl gefnogaeth.

Wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno ledled ein rhanbarth, byddem wrth ein bodd yn clywed gan unrhyw un a hoffai gymryd rhan fel gwirfoddolwr. Rydym yn chwilio am Farsialiaid Maes Parcio i gefnogi gyda rheoli traffig a chyfeirio pobl i'r Ganolfan Frechu. Yn ogystal, rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i gefnogi fel gwirfoddolwyr Cwrdd a Chyfarch, sy'n cynnwys cwrdd a chyfarch cleifion a'u cynorthwyo o fewn y Ganolfan.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan bobl a hoffai ein cefnogi yn ardaloedd Llanelli, Caerfyrddin, Dinbych-y-pysgod a Hwlfordd. Mae'r rolau gwirfoddol hyn yn bwysig i alluogi llif pobl trwy'r broses frechu, ac mae'n rhan o ddull tîm ehangach.

Gan fod y rolau hyn yn wynebu'r cyhoedd, mae disgwyl y byddwch mewn cysylltiad ag aelodau'r cyhoedd a chydweithwyr. Felly gofynnir yn gwrtais i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol neu gronig am eu rhesymau iechyd eu hunain beidio â gwneud cais am leoliad gwirfoddoli ar yr adeg hon wrth i ni reoli ein gwirfoddolwyr yn ystod y pandemig hwn.

Yn ogystal, gan ddilyn canllawiau, rydym yn gofyn yn gwrtais i bobl o dan 18 oed neu dros 70 oed beidio â gwneud cais ar hyn o bryd.

Os hoffech fynegi diddordeb mewn ein cefnogi gyda'r rolau gwirfoddol hyn, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych, cysylltwch â: HDd.VolunteerForHealth@wales.nhs.uk

Diolch

David Fretwell

Rheolwr Gweithlu'r Dyfodol

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth,
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building,
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Cadeirydd /Chair
Miss Maria Battle

Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Steve Moore

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda
Hywel Dda University Health Board is the operational name of Hywel Dda University Local Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn amgylchedd di-fwg Hywel Dda University Health Board operates a smoke free environment